OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1941

# Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

**2.** Yn y Gorchymyn hwn –

ystyr "athro neu athrawes cynllun carlam" ("*fast track teacher*") yw athro neu athrawes ddosbarth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth neu asesydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi eu hardystio felly;

ystyr "athro neu athrawes gofrestredig" ("*registered teacher*") yw person sydd am y tro wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

mae i "athro neu athrawes gymwysedig" yr un ystyr ag a roddir i "*qualified teacher*" yn adran 218(2) o Ddeddf 1988(**1**);

ystyr "athro neu athrawes sydd wedi croesi'r trothwy" ("*teacher who has passed the threshold*") yw athro neu athrawes y mae asesydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth wedi ardystio eu bod wedi croesi'r trothwy perfformiad a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu y mae pennaeth neu berson arall wedi eu hardystio felly o dan drefniadau sydd wedi'u cymeradwyo gan asesydd;

ystyr "athro neu athrawes uwch-fedrau" ("*advanced skills teacher*") yw athro neu athrawes sydd wedi'u hardystio gan asesydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn un sy'n gymwys i'w penodi i swydd athro neu athrawes uwch-fedrau;

mae "cyflogaeth" ("*employment*") mewn perthynas â chyflogaeth athro neu athrawes yn cynnwys rhoi gwaith i'r athro neu'r athrawes neu trefnu rhoi gwaith iddynt er mwyn iddynt ddarparu eu gwasanaeth fel athro neu athrawes heblaw o dan gontract cyflogaeth, a dehonglir "cyflogi" ("*employed*") yn unol â hynny;

ystyr "cyfnod ymsefydlu" ("*induction period*") yw cyfnod ymsefydlu a fwrir yn unol â rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf 1998(**2**);

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Diwygio Addysg 1988(**3**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998; ac

ystyr "y Gofrestr" ("*the Register*") yw'r gofrestr o athrawon ac athrawesau y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei sefydlu a'i chadw yn unol ag adran 3 o Ddeddf 1998 a rheoliadau a wnaed o dan adran 4 o'r Ddeddf honno, a dehonglir "cofrestru" ("*registration*") yn unol â hynny.

(**1**) Adeg gwneud y Gorchymyn hwn y rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon ar gyfer Cymru oedd Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/2817). Adeg gwneud y Gorchymyn hwn y rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon ar gyfer Lloegr oedd Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Lloegr) 1999 (O.S. 1999/2166).

(**2**) Adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid oedd rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon mewn perthynas â Chymru. Adeg gwneud y Gorchymyn hwn y rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon mewn perthynas â Lloegr oedd Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu Athrawon Ysgol) (Lloegr) 1999 (O.S. 1999/1065) a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/2211.

(**3**) 1988 p.40.